*CYNGOR BWRDEISTREF SIROL*
# *RHONDDA CYNON TAF*
COUNTY BOROUGH COUNCIL

**Bydd cyfarfod o'r CABINET yn cael ei gynnal yn Siambr y Cyngor, Cwm Clydach, CF40 2XX**
**Dydd Iau, 17eg Hydref, 2019 am 10.30 am**

**Dolen gyswllt: Emma Wilkins - Blaen Swyddog Busnes Rheoleiddiol a Gweithredol (Rhif ffôn. 01443 424110)**

**Os bydd cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn canol Dydd Mawrth, 15 Hydref 2019. Rhaid iddyn nhw hefyd gadarnhau ai yn y Gymraeg neu yn y Saesneg y byddan nhw'n annerch.**

**Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais am annerch y Cabinet. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/y Cynghorydd ynglŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. I wneud cais, anfonwch e-bost i UnedBusnesGweithredolaRheoleiddiol@rctcbc.gov.uk**

## MATERION I'W TRAFOD

**1. DATGAN BUDDIANT**

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.

**Nodwch:**

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr eitem mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

**2. COFNODION**

Derbyn cofnodion o gyfarfodydd y Cabinet a gynhaliwyd ar 11 a 24 Medi yn rhai cywir.

**(Tudalennau 7 - 28)**

**3. GWNEUD GWAHANIAETH: CYNLLUN CORFFORAETHOL 2020-2024 Y CYNGOR (DRAFFT) AR GYFER YMGYNGHORI**

Derbyn adroddiad y Prif Weithredwr yn nodi'r Cynllun Corfforaethol drafft newydd rhwng 2020/21 - 2024/25, gan gynnwys blaenoriaethau ac amcanion gweledigaeth y Cyngor, yn dilyn gwaith cyn craffu gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar 23 Medi 2019.

**(Tudalennau 29 - 60)**

**4. ADRODDIAD CYNLLUN DATBLYGU LLEOL RHONDDA CYNON TAF**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, sy'n cyflwyno Adroddiad Adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) i'r Cabinet, gan amlinellu ystyriaethau a chasgliadau allweddol yr adolygiad o'r Cynllun.

**(Tudalennau 61 - 144)**

**5. CYNIGION AM GYTUNDEB CYFLENWI DRAFFT AR GYFER CYNLLUN DATBLYGU LLEOL DIWYGIEDIG RHONDDA CYNON TAF**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu sy'n gofyn i'r Cabinet gymeradwyo cynnwys a chasgliadau'r Cytundeb Cyflenwi Drafft, a'r ymgynghoriad wedi'i dargedu dilynol yn seiliedig ar y ddogfen.

**(Tudalennau 145 - 224)**

**6. ARDOLL SEILWAITH CYMUNEDOL**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu sy'n gofyn i'r Cabinet gymeradwyo cynnwys Adroddiad Monitro Blynyddol yr Ardoll Seilwaith Cymunedol, yn dilyn gwaith cyn craffu gan y Pwyllgor Craffu - Cyllid a Chyflawniad.

**(Tudalennau 225 - 244)**

**7. CARTREFI CYNNES: STRATEGAETH TLODI TANWYDD AR GYFER RHONDDA CYNON TAF**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu sy'n nodi Strategaeth Tlodi Tanwydd y Cyngor ar gyfer y cyfnod 2019-2023.

**(Tudalennau 245 - 266)**

**8. ARIANNU RHAGLEN DRAWSNEWID HWB**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Digidol sy'n rhoi gwybod i'r Aelodau am y cyllid a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru yn rhan o raglen drawsnewid Hwb ar gyfer gwella'r defnydd o dechnoleg ddigidol ar gyfer addysgu a dysgu mewn ysgolion.

**(Tudalennau 267 - 272)**

**9. Y RHAGLEN WAITH DDIGIDOL - DIWEDDARIAD**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Digidol, sy'n rhoi diweddariad ar y Rhaglen Waith Ddigidol sy'n sail i'r amcanion a nodwyd yn Strategaeth Ddigidol 2020 y Cyngor.

**(Tudalennau 273 - 282)**

**10. GWASANAETHAU'R RHENG FLAEN - CYNLLUNIAU GWELLA PRIFFYRDD**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Cyfadran – Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-flaen, sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y cynnydd a wnaed o ran y Cynllun Gwella Priffyrdd a'r camau sydd i ddod.

**(Tudalennau 283 - 292)**

**11. DEDDF TRWYDDEDU 2003 - DATGANIAD POLISI TRWYDDEDU 2020-2025**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned sy'n gofyn i'r Cabinet gymeradwyo'r Drafft o'r Datganiad o Bolisi Trwyddedu (Alcohol, Adloniant a Lluniaeth Hwyr y Nos) 2020-2025 Newydd.

**(Tudalennau 293 - 354)**

**12. BUDDSODDIADAU'R CYNGOR A CHYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU YN Y CELFYDDYDAU**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned sy'n rhoi gwybodaeth i'r Aelodau am fuddsoddiadau cyfalaf a refeniw Cyngor a Chyngor Celfyddydau Cymru i'r celfyddydau yn Rhondda Cynon Taf yn ystod 2018/19 a 2019/20 hyd yn hyn.

**(Tudalennau 355 - 374)**

**13. YMGYSYLLTU MEWN PERTHYNAS Â CHYLLIDEB Y CYNGOR - 2020/21**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu, sy'n rhoi manylion i'r Aelodau am ymgysylltiad arfaethedig y Cyngor mewn perthynas â Chyllideb 2020/21.

**(Tudalennau 375 - 380)**

**14. ARGYMHELLION Y GWEITHGOR CRAFFU AR Y GOFRESTR FWYD**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu, sy'n cyflwyno argymhellion y Gweithgor Craffu ar y Gofrestr Fwyd i'r Aelodau.

**(Tudalennau 381 - 386)**

**15. ARGYMHELLION Y GWEITHGOR CRAFFU - AILGYLCHU CYMUNEDOL**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu, sy'n cyflwyno argymhellion y Gweithgor Craffu - Ailgylchu Cymunedol i'r Gweithgor.

**(Tudalennau 387 - 442)**

**16. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n rhoi Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol i Aelodau o'r Cabinet cyn ei gyhoeddi.

**(Tudalennau 443 - 494)**

**17. CYNLLUN DIRPRWYO'R ARWEINYDD**

Derbyn Cynllun Dirprwyo'r Arweinwyr yn dilyn y diwygiadau diweddar sy'n cynnwys:

- Aelodaeth o Grŵp Llywio Gefeillio'r Cyngor
- Creu Grŵp Llywio'r Cabinet - Newid Hinsawdd

**18. MATERION BRYS**

Trafod unrhyw faterion brys y mae'r Cadeirydd yn eu gweld yn briodol.

**Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol**

**Cylchrediad:-**

**Y Cynghorwyr:** Y Cynghorydd A Morgan (Cadeirydd)
Y Cynghorydd M Webber (Is-gadeirydd)
Y Cynghorydd R Bevan
Y Cynghorydd A Crimmings
Y Cynghorydd G Hopkins
Y Cynghorydd M Norris
Y Cynghorydd J Rosser
Y Cynghorydd R Lewis
Y Cynghorydd C Leyshon

**Swyddogion:**

Chris Bradshaw, Prif Weithredwr
Christian Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Gio Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Nigel Wheeler, Cyfarwyddwr Cyfadran – Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-flaen
Paul Mee, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned.
Richard Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Simon Gale, Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Andy Wilkins (Legal), Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
Barrie Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol

David Powell, Cyfarwyddwr Materion Eiddo'r Cyngor
Gaynor Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Derek James, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Ffyniant a Datblygu